



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Syr Hugh Owen**

**Bethel Road  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1HW**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Syr Hugh Owen

Enw'r darparwr	Ysgol Syr Hugh Owen
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	926
Disgyblion o oedran ysgol statudol	787
Nifer yn y chweched dosbarth	139
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.2%)	15.8%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 14.8%)	18.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	89.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2019
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	07/03/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	22/04/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae disgyblion Ysgol Syr Hugh Owen yn rhai croesawgar a chynnes sydd yn ymgysylltu'n frwd ag ymwelwyr ac yn aelodau balch o'u cymuned leol. Mae llawer yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac maent yn barchus o eraill. Mae'r rhan fwyaf yn dweud nad ydynt yn cael eu bwlio ac mae llawer yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella eleni, ond mae'n parhau i fod yn destun pryder, yn enwedig i ddisgyblion bregus a'r rhai sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn addas. Yn y gwersi hyn mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau defnyddiol ac yn darparu lefel briodol o her. Serch hyn, yn y lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd oherwydd diffygion yn yr addysgu. Yn yr achosion hyn, nid yw'r cynllunio'n ddigon cadarn ac nid yw lefel yr her yn addas.

Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys ac mae gweledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Cryfder amlwg yw'r ddarpariaeth ar gyfer rhoi profiadau a chyfleoedd i ddisgyblion. Mae disgyblion yn elwa o'r myrdd o gyfleoedd diwylliannol, cymdeithasol, creadigol a chwaraeon. Maent hefyd yn elwa o'r ddarpariaeth ddefnyddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau am y camau nesaf yn eu bywydau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a digidol disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer eu medrau rhifedd yn dechrau datblygu ond mae ymyraethau ar gyfer disgyblion â medrau rhifedd sylfaenol gwan yn annatblygedig.

Mae staff yn dangos gofal amlwg dros y disgyblion ac yn canolbwyntio ar gefnogi eu lles. Er bod cryfderau yn y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion, nid oes goruchwyliaeth ddigon tynn o'r maes hwn. Yn benodol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon datblygedig, yn enwedig o ran olrhain eu cynnydd. Yn ogystal, nid yw'r trosolwg ysgol gyfan o'r ddarpariaeth ar gyfer lles yn ddigon miniog i allu adnabod meysydd i'w gwella yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid yw'r gefnogaeth ar gyfer ychydig o ddisgyblion yn ddigon effeithiol ac nid yw gwaith arweinwyr yn cael digon o effaith ar wella agweddau fel presenoldeb.

Mae arweinwyr yn llwyddiannus o ran hybu ymdeimlad cryf o Gymreictod a theimlad o berthyn i'r ardal leol, ynghyd â darparu profiadau cyfoethog i ddisgyblion. Maent hefyd yn ymateb yn gadarn i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r uwch dîm rheoli'n gweithio'n gydwybodol, ond mae gormod o orgyffwrdd o ran eu cyfrifoldebau ac nid yw bob amser yn glir pwy sydd â chyfrifoldeb strategol am feysydd penodol. Er bod system addas ar gyfer gweithgareddau hunanwerthuso, nid yw arweinwyr bob amser yn triongli canfyddiadau o'r gweithgareddau hyn nac yn dadansoddi'r dystiolaeth a ddaw o'r prosesau hyn yn ddigon da. O ganlyniad, nid ydynt yn adnabod yr union agweddau sydd angen mynd i'r afael â nhw ac nid yw'r gweithredu yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliant. Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni eu rôl, ond nid yw'r wybodaeth maent yn ei derbyn bob amser yn eu galluogi i herio'r ysgol yn llawn. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth

am drefniadau'r ysgol yn briodol ond nid yw rhieni na staff bob amser yn teimlo bod cyfathrebu yn ddigon effeithiol.

## Argymhellion

- A1 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion bregus, ynghyd â'r trosolwg strategol o'r ddarpariaeth honno
- A2 Gwella hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant
- A3 Cryfhau arweinyddiaeth strategol er mwyn cwmpasu holl waith allweddol yr ysgol
- A4 Gwella presenoldeb disgyblion, yn cynnwys grwpiau o ddisgyblion, a'r gwaith strategol i wneud hynny
- A5 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn addas. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd neu'n cyflawni gystal ag y gallant oherwydd diffygion yn ansawdd yr addysgu. Mae ychydig yn gwneud cynnydd cyfyngedig oherwydd agweddau negyddol at ddysgu neu ansawdd yr addysgu.

Mae mwyafrif y disgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn addas ac yn cofio a defnyddio terminoleg bynciol yn briodol. Mae ychydig ohonynt yn arddangos gwybodaeth bynciol gref ac yn adalw a chymhwyso eu gwybodaeth yn fedrus. Mae lleiafrif yn cael anhawster adalw gwybodaeth a chymhwyso gwybodaeth flaenorol i sefyllfaoedd newydd. Nid oes gan leiafrif o ddisgyblion afael gadarn ar wybodaeth bynciol sylfaenol a therminoleg pwnc.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar yr athro ac ar ei gilydd. Mae'r mwyafrif yn barod eu cyfraniadau at drafodaethau dosbarth ac mae ansawdd eu cyfraniadau yn briodol. Mae ychydig yn gwneud cyfraniadau aeddfed, gan

strwythuro'u hymatebion yn gelfydd. Mae lleiafrif y disgyblion yn cynnig ymatebion byr heb eu datblygu'n llawn, ond mae hyn yn aml oherwydd natur cwestiynu a disgwyliadau'r athro. Mae ychydig o ddisgyblion yn dawedog iawn ac yn amharod i gyfrannu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod yn naturiol yn Gymraeg ymysg ei gilydd ac mae'r mwyafrif yn meddu ar adnoddau llafar cyfoethog gyda chystrawen naturiol Gymreig.

Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli a chasglu gwybodaeth yn gymwys. Maent hefyd yn deall ystyr, themâu a chymeriadau mewn amrywiaeth o destunau ar draws y cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn dadansoddi teimladau cymeriadau mewn nofelau drwy uniaethu â chymeriad Begw yn 'Te yn y grug' gan Kate Roberts. Pan gânt y cyfle, mae'r mwyafrif yn defnyddio strategaethau darllen megis anodi ac uwchleuo yn addas. Wrth ymdrin ag arddull ac effaith testunau, mae lleiafrif yn gwneud hynny yn hyderus ac yn sensitif, wrth drafod cerddi rhyfel yn Saesneg, er enghraifft. Mae'r mwyafrif yn adnabod dulliau a defnyddio termau arddull yn briodol, gan gynnig dadansoddiadau elfennol. Mae lleiafrif yn cael anhawster dadansoddi iaith ac arddull ac effaith technegau ysgrifennu ac nid oes gafael digon cadarn ganddynt ar derminoleg nac elfennau sylfaenol iaith. Pan mae gofyn arnynt, yn gyffredinol, mae disgyblion yn darllen ar goedd yn glir. Mae ychydig o ddisgyblion iau yn echdynnu gwybodaeth o ffynonellau yn effeithiol gan adnabod gwybodaeth berthnasol i gwestiwn ac mae ychydig yn crynhoi gwybodaeth o ffynonellau yn dda. Mae mwyafrif y disgyblion iau yn trafod defnyddioldeb ffynonellau hanesyddol ar lefel rhy sylfaenol. Nid ydynt yn datblygu eu rhesymeg wrth drafod yr awdur a'r rhesymau dros gynhyrchu'r ffynhonnell. Mewn ychydig o achosion ble mae cyfleoedd naturiol i wneud hynny, nid yw disgyblion bob amser yn datblygu eu medrau darllen yn ddigonol.

Wrth ysgrifennu, mae llawer yn trefnu eu gwaith yn addas gan ddefnyddio brawddegau a pharagraffau. Mae llawer yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu estynedig priodol i'w gallu ond mae lleiafrif yn cael anhawster strwythuro'u gwaith a defnyddio sgaffaldiau mewn modd pwrpasol. Mae gan y mwyafrif eirfa sylfaenol addas yn y Gymraeg a Saesneg. Mae lleiafrif y disgyblion yn meddu ar eirfa eang ac yn defnyddio iaith gyfoethog yn y Gymraeg ac, i raddau llai, yn Saesneg. Mae gan leiafrif eirfa gyfyng neu maent yn defnyddio geiriau yn amhriodol. Mae ychydig yn ysgrifennu'n dafodieithol pan nad yw hynny'n briodol ac yn defnyddio bratiaith. Mewn gwrsi Cymraeg a Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda, gan ysgrifennu mewn ystod addas o ffurfiau ac arddulliau, ar y cyfan. Mae disgyblion hefyd yn datblygu'u medrau ysgrifennu'n dda mewn rhai pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn disgrifio darnau o gerddoriaeth gan egluro elfennau cerddorol a defnyddio terminoleg yn hyderus a chywir. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu â lefel addas o gywirdeb. Mae lleiafrif â gafael simsan ar ramadeg ac yn ysgrifennu'n wallus, gan gamsillafu geiriau cyffredin a therminoleg pwnc yn gyson. Mae ychydig yn gwneud camgymeriadau sillafu cyson iawn ac yn cael anhawster strwythuro'u gwaith yn frawddegau neu baragraffau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif sylfaenol yn gadarn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 9 yn defnyddio pwerau yn gywir ac yn ysgrifennu rhifau gan ddefnyddio'r ffurf safonol. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif llai datblygedig ac nid yw ychydig iawn ohonynt yn gallu dewis a chymhwyso strategaethau gwirio priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu cwblhau cyfrifiadau aml gam, megis cyfrifo cymedr neu gymharu costau wrth chwilio am

fargen orau. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o waith siâp ac mae ychydig yn llwyddo i gymhwyso'r wybodaeth wrth ddatrys problemau mewn cyd-destun. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud defnydd llwyddiannus o ddata er mwyn llunio graffiau bar a llinell yn gywir. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, gallant ddefnyddio graffiau'n gywir i gyfrifo màs sylwedd sy'n hydoddi mewn dŵr ar dymhereddau gwahanol. Pan maent yn llunio graffiau, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sylfaenol fel peidio â labelu'r echelinau neu nid ydynt yn cadw'r barrau'n gyson. Mae lleiafrif y disgyblion yn gallu esbonio eu dewisiadau o dechnegau a strategaethau wrth gyflawni tasg neu gyfrifiad, fel pan maent yn defnyddio eu gwybodaeth o gyfartaleddau i ganfod set o ddata o fewn problemau gwrthdro. Mae ychydig o ddisgyblion yn cael anhawster disgrifio'r hyn maent wedi ei wneud a sut mae hyn yn ateb gofynion y cwestiwn. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau mathemategol yn hyderus gan gwblhau amryw o gwestiynau cyd-destunol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth fathemategol ar draws ystod o broblemau gwahanol yn ddigonol oherwydd diffyg cyfleoedd i wneud hynny.

Mae disgyblion yn cael budd o'r amrywiaeth o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu medrau digidol, gan gynnwys eu huwch fedrau digidol. Er enghraifft, maent yn cwblhau cwrs codio ym Mlwyddyn 9 ac yn dylunio gwefannau gan ddefnyddio amrywiaeth o feddalweddau. Pan maent yn cael y cyfle, maent yn gwneud defnydd cywir o feddalwedd taenlennu er mwyn llunio graffiau a tablau ac yn cynnwys hafaliadau syml.

Mae disgyblion yn elwa o'r myrdd o gyfleoedd o fewn y cwricwlwm a thu hwnt iddynt ddatblygu eu medrau creadigol mewn amryw feysydd gan gynnwys celf, cerdd, drama, technoleg bwyd a thechnoleg. Er enghraifft, mewn ffotograffiaeth, mae disgyblion yn arddangos medrau cadarn iawn yn eu gwaith creadigol wrth ddewis portreadau er mwyn tynnu llun a'i addasu'n briodol gan ddefnyddio meddalwedd digidol. Mewn technoleg, maent yn datblygu syniadau newydd a mireinio syniadau gwreiddiol wrth ddylunio a chreu gôl pêl fasged, stondin i ddal clustffonau neu gwpwrdd.

Mae brwdfrydedd disgyblion o ran datblygu'u medrau corfforol, yn arbennig trwy addysg gorfforol a chwaraeon, yn nodedig. Er enghraifft, mae llawer yn datblygu medrau corfforol buddiol wrth wella techneg ac ymarfer mynd dros glwydi yn eu gwersi ymarfer corff.

Mewn ychydig o enghreifftiau, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn addas. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl na'u medrau dysgu annibynnol yn ddigon cadarn. Mae ychydig o ddisgyblion yn or-ddibynnol ar sgaffaldiau a chymorth yr athro.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac yn arddangos brwdfrydedd at eu pynciau. Maent yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn arddangos medrau dysgu annibynnol cadarn. Mae'r disgyblion hyn yn trafod yn adeiladol pan maent yn gwneud gwaith pâr ac maent, ar y cyfan, yn cyfrannu'n frwdfrydig ac aeddfed i drafodaethau dosbarth. Mae rhai disgyblion sy'n cyfrannu ar lafar yn mynegi eu hunain yn hynod effeithiol, gan ddefnyddio geirfa bynciau soffistigedig a gwneud cysylltiadau yn eu dysgu.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae disgyblion Ysgol Syr Hugh Owen yn groesawgar, cynnes a chyfeillgar. Maent yn dangos parch at eraill, gan ymddwyn mewn modd cymwynasgar a chwrtais tuag at staff, ymwelwyr a chyfoedion. Ymddiddorant mewn pobl, gan fanteisio ar gyfleoedd i sgwrsio a chymdeithasu'n anffurfiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn mwynhau ac yn hapus i fynychu'r ysgol. Teimlant falchder o fod yn aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dweud nad ydynt yn cael eu bwlio ac maent yn gwybod at bwy i droi petai rywbeth yn achos pryder iddynt. Maent yn teimlo bod staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae agweddau llawer o ddisgyblion at eu dysgu yn gyson dda, Maent yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon ac yn ymroi i weithio'n gyflym. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dangos parch at eu hathrawon, gan wrando'n astud arnynt a chanolbwyntio ar waith y wers. Mae llawer o ddisgyblion yn dyfalbarhau ar dasgau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn araf i ddechrau gweithio ac yn hwyr i'w gwersi. Nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar gyfarwyddiadau'r athro, ac o ganlyniad, maent yn ansicr ynghylch yr hyn mae angen iddynt ei gyflawni.

Mae llawer o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn barod i gynnig atebion i gwestiynau'r athro. Maent yn dangos parch at eu cyfoedion, gan ymdrechu i wneud cyfraniadau priodol at drafodaethau pâr a grŵp. Mae llawer ohonynt yn barod hefyd i gyfrannu at drafodaethau dosbarth ac i gefnogi ei gilydd wrth wneud hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o amgylch safle'r ysgol, gan ddangos parch at eu hathrawon a'u cyd-ddisgyblion. Maent yn deall pwysigrwydd ymddygiad aeddfed a synhwyrol, yn ogystal â phwrpas rheolau a chanlyniadau camymddwyn.

Mae disgyblion yn ymgymryd â rolau arwain drwy'r fforymau dosbarth a blwyddyn, y cyngor ysgol ac is-bwyllgorau amrywiol, sydd oll yn trafod materion sy'n ymwneud â'r disgyblion. Mae gwaith y Cyngor wedi cyfrannu at welliannau fel moderneiddio toiledau'r ysgol ac addasu gwisg yr adran addysg gorfforol. Mae gan aelodau'r cyngor ysgol ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach ac maent wedi cydweithio â'r ffreutur er mwyn datblygu ac addasu'r dewis o fwydydd iach sydd ar gael i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw cymuned ehangach yr ysgol bob amser yn ymwybodol o'u gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r ystod eang o chwaraeon a gynigir iddynt drwy'r clybiau a chyfleoedd chwaraeon, er enghraifft y tимоedd pêl-droed, pêl-rwyd, pêl-fasged a hoci. Gwneir defnydd helaeth o'r cyfleusterau 3G gan y disgyblion yn ystod oriau cinio ac ar ôl ysgol. Mae disgyblion yn mynychu cystadlaethau a thwrnameintiau, gan ennill llwyddiant ar lefel leol a chenedlaethol. O ganlyniad i'r profiadau hyn a'r ddarpariaeth o fewn y cwricwlwm, mae'r disgyblion yn ymwybodol o effaith gadarnhaol gweithgarwch corfforol ar eu hiechyd.

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hardal leol. Mae llawer ohonynt yn mwynhau'r ystod eang iawn o weithgareddau diwylliannol Cymreig, gan elwa'n fawr o'r profiadau. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau drama a

cherddoriaeth, gan berfformio yn Eisteddfod yr Urdd ac mewn sioeau cerdd a chyngherddau'r ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion yn perfformio ym mand a cherddorfa'r ysgol, tra bod eraill yn aelodau o'r corau a'r partïon cerddorol niferus. Caiff y disgyblion gyfleoedd hefyd i fynychu teithiau preswyl gan ehangu eu gorwelion ac elwa o brofiadau tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu teithiau ysgol ledled Cymru ond hefyd yn rhyngwladol i leoedd fel Patagonia, Gwlad Pwyl a'r Almaen.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed, cyfeillgar a huawdl. Maent yn llysgenhadon arbennig i'r ysgol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn at eu gwaith ac maent yn elwa o'r cyfleoedd a geir i arwain, er enghraifft y clybiau ar gyfer disgyblion iau fel y Clwb Lego a'r Clwb Fformiwla Un. Maent yn gweithio fel mentoriaid 'BYDIs' Cymraeg a Saesneg ac yn meithrin perthynas gadarnhaol rhwng disgyblion iau a hŷn yr ysgol.

Mae disgyblion o bob blwyddyn yn hynod weithredol wrth gefnogi a chodi arian at achosion da ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhain, ymysg prosiectau eraill, yn cynnwys codi arian at elusen Macmillan a chefnogi ysgolion Cymraeg ym Mhatagonia. Yn ogystal, mae disgyblion yn cyfrannu at brosiectau cymunedol megis y "Prosiect Canfas" mewn cydweithrediad â Galeri Caernarfon a'r banc bwyd lleol. Maent yn deall eu rôl fel dinasyddion egwyddorol a'u cyfraniad at eu cymuned.

Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2022-2023, gostyngodd cyfradd presenoldeb yr ysgol gan fwy na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd yn llawer is na'r ffigwr cyfatebol o fewn ysgolion tebyg. Bu gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb ers dechrau'r flwyddyn academaidd hon. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau presenoldeb, yn cynnwys ymysg disgyblion bregus a disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn parhau'n destun pryder.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu**

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn meithrin perthynas waith gadarnhaol a chefnogol â'u disgyblion, sydd yn nodweddiadol arbennig. Yn ogystal, mae ganddynt wybodaeth bynciol gref.

Mae llawer o athrawon yn annog cyfranogiad disgyblion yn llwyddiannus ac mae ganddynt ddisgwyliadau clir o'u hymgysylltiad. Maent yn cyflwyno terminoleg pwnc a geirfa berthnasol yn gyson wrth gyflwyno. Darparant adnoddau priodol i gynorthwyo'r dysgu ac maent gan amlaf yn cynllunio tasgau addas sy'n adeiladu ar ei gilydd yn bwrpasol. Maent yn cylchu'r dosbarth i gefnogi disgyblion a chynnig cymorth wrth iddynt weithio. Mae mwyafrif yr athrawon yn cyfarwyddo'n eglur ac yn cynnig esboniadau pwrpasol. Maent yn gosod lefel her briodol ac yn holi cwestiynau cyson i sicrhau bod disgyblion yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol, yn adalw gwybodaeth berthnasol a gwneud defnydd o hyn i ddatblygu'u dealltwriaeth.

Mewn ychydig o achosion, ble mae nodweddion cryf iawn yn yr addysgu, mae athrawon yn frwdfrydig iawn dros eu maes dysgu ac yn llwyddo i sbarduno brwdfrydedd yn y disgyblion. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o ymgysylltiad a chyflawniad y disgyblion. Maent yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu medrau a dealltwriaeth bynciol ac yn modelu ymatebion o ansawdd uchel. Yn y gwrsi hyn, mae athrawon yn aml yn gofyn cwestiynau pen agored ac ymestynnol i



brocio meddwl disgyblion ac i'w cael i ddatblygu eu syniadau. Maent yn defnyddio eu hadnabyddiaeth dda o'u disgyblion i dargedu cwestiynau heriol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion disgyblion o wahanol alluoedd. Yn aml, maent yn atgyfnerthu datblygiad y Gymraeg a llafaredd disgyblion trwy fynnu cywirdeb a safon uchel o ieithwedd.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion yn yr addysgu yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn esbonio a chyflwyno'n ddigon clir neu maent yn gor-gyfarwyddo'r dysgu. Yn ogystal, nid ydynt yn modelu atebion. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r cynllunio yn ddigon ystyriol o'r cynnydd mae angen i ddisgyblion ei wneud ac nid yw lefel yr her yn cyd-fynd ag oedran a gallu disgyblion. Yn aml yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio tasgau byr neu rai sy'n rhy debyg i'w gilydd ac yn gor-ddefnyddio taflenni gwaith rhy elfennol neu sgaffaldiau. Mae hyn yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion roi ymatebion estynedig, i ddatblygu eu syniadau neu i ddatblygu annibyniaeth. Nid yw'r athrawon yn y gwersi hyn yn holi cwestiynau treiddgar neu estynedig yn ddigon aml ac maent yn rhy barod i dderbyn bratiaith.

Yn gyffredinol, mae amrywiaeth yn ansawdd yr asesu a'r adborth a roddir ar waith disgyblion ac effaith hynny ar safonau a chynnydd disgyblion o fewn ac ar draws pynciau. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn tynnu sylw at gryfderau ac elfennau i'w gwella yng ngwaith disgyblion ac yn rhoi sylwadau buddiol a phwrpasol iddynt. Lle bo'n briodol, maent yn gosod cwestiynau ymestynnol heriol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymateb y disgyblion i'w sylwadau a'r gwelliannau a wnânt. Mewn lleiafrif o achosion, mae sylwadau'r athro yn rhy arwynebol ac nid ydynt yn cynnig arweiniad digon clir ar sut i wella'r gwaith. Mae llawer o athrawon yn tynnu sylw at gamgymeriadau sillafu, gramadeg ac atalnodi yng ngwaith ysgrifenedig disgyblion. Fodd bynnag, mae eu disgwyliadau o ymatebion a chywiriadau gan ddisgyblion yn anghyson.

Mae adroddiadau interim a llawn yn cynnwys gwybodaeth addas am gyflawniad, agweddau at ddysgu, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion, ond nid oes digon o eglurhad i rieni am arwyddocâd graddau neu lefelau lles. Mae system addas ar gyfer casglu data cyrhaeddiad disgyblion ac mae arweinwyr yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae cwricwlwm cynhwysfawr a chynhwysol yn y chweched dosbarth sy'n cynnwys ystod o bynciau galwedigaethol ac academaidd. Mae'r ysgol wedi ymateb i ddyheadau a diddordebau'r disgyblion drwy gyflwyno pynciau fel troseddeg a hyfforddi chwaraeon ynghyd â diwallu anghenion y farchnad lafur lleol trwy gyrsiau fel y cwrs galwedigaethol bwyd a maeth. Yn yr un modd, mae arlwy eang o bynciau ar gael i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae gan yr ysgol bartneriaeth fuddiol ag ysgolion eraill a cholegau lleol sy'n caniatáu iddynt ehangu yr ystod o bynciau sydd ar gael i ddisgyblion ar draws Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys trin gwallt a harddwch, cefn gwlad a'r amgylchedd a pheirianneg modurol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ymestyn disgyblion mwy abl drwy gynnig cyrsiau fel mathemateg ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 4 a gweithgareddau allgyrsiol fel y Brilliant Club a'r rhwydweithiau SEREN. Mae gan yr

ysgol hefyd gwricwlwm amgen pwrpasol sy'n diwallu anghenion rhai grwpiau o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Trwy hyn, mae cyfle iddynt ddilyn cyrsiau ymarferol ynghyd â derbyn profiadau buddiol o wirfoddoli yn eu cymunedau drwy gysylltiadau rhwng yr ysgol a chwmnïau lleol.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth o yrfaeod a byd gwaith sydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Gwneir defnydd effeithiol o ddarpariaeth Gyrfa Cymru a'r gwersi 'Twf', ynghyd â nosweithiau agored a sesiynau blasu pynciau newydd, i gynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau ym Mlwyddyn 9 ac 11.

Mae gan arweinwyr ar bob lefel weledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sydd wedi ei llunio ar y cyd â'r cyngor ysgol ac wedi'i seilio'n gryf ar 'gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am eu hardal eu gwlad a'r byd.' Er enghraifft, ym Mlwyddyn 7, rhoddir cyfle i ddisgyblion gyfansoddi darn o gerddoriaeth wedi'i ysbrydoli gan y tirlun lleol. Mae cynllunio bwriadus ar draws llawer o'r adrannau i ddarparu amryw brofiadau dysgu buddiol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn yr ardal leol. Er enghraifft, cynhelir 'Wythnos Antur' lwyddiannus yn nhyr ym haf fel rhan o'r maes lechyd a Lles. Trwy hyn, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion Blwyddyn 7 ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac arwain wrth ymgymryd ag amryw weithgareddau yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn ddigon effeithiol i ddatblygu medrau pwnc penodol, o ganlyniad, nid oes digon o gyfle i ddisgyblion ddyfnhau eu gwybodaeth bynciol er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon.

Cyfoethogir profiadau dysgu'r disgyblion trwy arlwy eang o brofiadau allgyrsiol amrywiol, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ganddynt, yn enwedig yn y maes celfyddydau perfformio a chwaraeon. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn perfformiadau fel y sioe gerdd 'Herspre' ac mae lluo o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio yn yr amryw gorau a bandiau ysgol, ynghyd â chystadlu ar draws sawl camp chwaraeon.

Mae'r cydlynwyr medrau yn frwdfrydig ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'u meysydd. Maent yn cynnig cefnogaeth fuddiol i staff wrth gynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion yn eu medrau. Eleni, mae'r ysgol wedi cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau darllen disgyblion wrth gysoni'r defnydd o ddulliau a strategaethau a gyflwynir ac mae'r rhain yn cael defnydd addas ar draws yr ysgol. Mae'r cydlynwyr rhifedd wedi cychwyn ar gyd-gynllunio gwerthfawr gydag ysgolion cynradd partner. Mewn pynciau perthnasol y tu hwnt i fathemateg, mae ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhif sylfaenol ond, ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn ei dyddiau cynnar. Trwy awdit cynhwysfawr, mae'r ysgol wedi adnabod cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau digidol disgyblion ac adeiladu'n gyson arnynt drwy gyfleoedd i ailymweld â nhw ar draws y pynciau. Mae adrannau wedi datblygu gweithgareddau digidol gwerthfawr a difyr sy'n cyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol disgyblion. Er enghraifft, yn yr adran Gymraeg, darperir cyfle i Flwyddyn 7 ddatblygu eu medrau cynhyrchu digidol wrth greu fideo ar detholiad o Tê yn Grug. Mae ychydig o ymyraethau addas ar gyfer cefnogi disgyblion â medrau llythrennedd gwan ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymyraethau i ddisgyblion â medrau rhifedd sylfaenol gwan yn annatblygedig.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion trwy gyfuniad o'r rhaglen 'Twf', sesiynau boreol a'r gwasanaethau blwyddyn. Ymdrinnir â thestunau perthnasol fel bwyta'n iach, pwysigrwydd cwsg a datblygu dealltwriaeth o ddiogelwch ar yr we.

Mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau addas ar gyfer addysgu disgyblion am hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Er enghraifft, mewn gwersi'r dyniaethau, mae Blwyddyn 8 yn ymchwilio i unigolion o gefndiroedd gwahanol, gan gynnwys Betty Campbell a Chico Mendez.

Mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn a balchder yn nhrefnadaeth Gymraeg a Chymreig y disgyblion. Mae hyn yn treiddio trwy holl weithgarwch yr ysgol, gydag ethos cryf iawn o ddathlu'r gymuned leol a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn nodweddiadol gref.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Syr Hugh Owen yn gymuned sy'n ymfalchïo yn ei chynefin a'i Chymreictod. Mae staff yr ysgol yn dangos gofal angerddol dros y disgyblion, yn meithrin teimlad o berthyn ac yn ffocysu ar gefnogi eu lles.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion, er mwyn iddynt ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac elwa ar y cyfleoedd eang sydd ar gael iddynt. Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol ag asiantaethau allanol fel y cyswllt lles, swyddog ymgysylltu teuluol a'r therapydd celf. Mae cymorth ac arweiniad emosiynol buddiol ar gael i ddisgyblion bregus i oresgyn unrhyw rwystrau a allai eu hatal rhag ymgysylltu â dysgu. Serch hyn, nid yw'r trosolwg ysgol gyfan o'r maes hwn yn ddigon miniog er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pob disgybl. O ganlyniad, nid yw'r gefnogaeth ar gyfer ychydig o ddisgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn datblygu'r gwaith o gydymffurfio â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae'r gweithdrefnau a'r prosesau yn datblygu'n addas, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau i olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn erbyn targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u manau cychwyn unigol, yn ddigon cyson a manwl. Nid yw'r gwaith hwn yn ystyried ystod digon eang o wybodaeth, er enghraifft cyflawniad disgyblion yn eu pynciau, er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer y disgyblion hyn yn ddigon effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio addas ar gyfer disgyblion â chynlluniau dysgu unigol. Yn fwy diweddar, mae'r ysgol wedi dechrau datblygu trefniadau pontio ar gyfer disgyblion eraill sydd ag ADY er mwyn dod i'w hadnabod a hwyluso trosglwyddo i'r uwchradd. Er hyn, nid yw'r trefniadau wedi gwreiddio ac mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith. Mae perthynas dda iawn a chadarnhaol rhwng cynorthwyr a disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid yw cynorthwyr yn cael eu ddefnyddio'n bwrpasol bob amser er mwyn cefnogi disgyblion yn fwriadus.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh) addas trwy wersi 'Twf'. Mae'r cynllun yn adlewyrchu canfyddiadau o ddadansoddiadau

holiaduron iechyd a lles ac yn ymateb i faterion cyfoes, lleol ac yn ehangach. Yn ogystal, mae gwasanaethau blwyddyn a gwasanaethau dosbarth yn cyfrannu'n bwrpasol at hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion a diwylliant ble mae disgyblion yn cael eu hannog i ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus sy'n parchu ei gilydd a'u cymuned. Trwy themâu wythnosol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i drafod hawliau, er enghraifft wrth ystyried goddefgarwch, cydraddoldeb, empathi, chwaraeon a sbortsmonaeth. Yn ogystal, mae diwrnodau 'Twf' yn atgyfnerthu hyn trwy gynnig cyfleoedd i wrando ar siaradwyr gwadd a chydweithio ag asiantaethau allanol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynllunio gweithgareddau i godi arian at elusennau trwy weithio gyda'r banc bwyd lleol a gwirfoddoli i wella gardd mewn canolfan gymuned leol.

Mae athrawon yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion. O ganlyniad, mae ymddygiad llawer o ddisgyblion yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r system wobrwyo yn rhoi cyfle i staff hyrwyddo ymddygiad ac ymdrech dda disgyblion. Serch hyn, nid yw'r system yn ddigon effeithiol i gydnabod yn llawn ymddygiad da ac ymdrechion disgyblion. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn colli cyfleoedd gwerthfawr i arddangos eu cryfderau.

Mae cwricwlwm amgen addas ar gyfer disgyblion sy'n cael anhawster ymgysylltu. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda phartneriaethau i gynnig cyrsiau amrywiol fel cwrs gofal anifeiliaid, 'prosiect Phoenix' a chwrs awyr agored. Serch hyn, nid yw arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am les, anghenion dysgu neu waharddiadau yn ddigon effeithiol er mwyn adnabod gwelliannau sydd eu hangen yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion penodol.

Mae gan yr ysgol weledigaeth i gynnig profiadau bythgofiadwy o fewn a thu hwnt i furiau'r ystafell ddosbarth. Mae'r ystod eang ac amrywiol o weithgareddau allgyrsiol yn darparu ar gyfer diddordebau diwylliannol, cymdeithasol, chwaraeon ac academaidd y disgyblion ac yn cyfoethogi eu profiadau tra byddant yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys band pres, sioeau cerdd, eisteddfod, nifer helaeth o glybiau chwaraeon a theithiau ysgol lleol a thramor. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gystadlu a llwyddo yn lleol ac yn genedlaethol mewn amryw dwrnameintiau a chystadlaethau chwaraeon a pherfformio. Yn ogystal, mae adrannau yn gwneud cysylltiadau gwerthfawr â busnesau a diwydiannau lleol. Er enghraifft, mae'r adran wyddoniaeth yn ymweld â Magnox fel rhan o'u profiadau dysgu pynciol.

Mae gan ddisgyblion gyfle i fynegi barn er mwyn dylanwadu ar fywyd yr ysgol trwy'r amrywiaeth o fforymau a chynghorau ysgol. Yn ogystal, mae is-bwyllgorau fel y Cyngor Eco, Cyngor Iaith a Chyngor Chwaraeon wedi cael eu sefydlu er mwyn rhoi cyfle i ddylanwadu ymhellach ar waith yr ysgol. Maent wedi cael effaith gadarnhaol ar ychydig o welliannau ysgol gyfan, er enghraifft trwy drefnu newidiadau i'r toiledau a gosod ffynhonnau dŵr yn yr ysgol. Mae pob blwyddyn yn cael ei chynrychioli ar y cyngor ysgol, fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod cynrychiolaeth gytbwys o grwpiau gwahanol o ddisgyblion ar y cynghorau ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn ddatblygu medrau arwain. Mae disgyblion o Flynyddoedd 12 a 13 yn elwa o'r cyfleoedd i arwain yn y chweched dosbarth. Er enghraifft, maent yn trefnu diwrnod o weithgareddau Plant

Mewn Angen, yn cynnal clybiau amrywiol ac yn gweithio fel mentoriaid gyda dysgwyr iau.

Mae gan yr ysgol drefniadau defnyddiol wrth gefnogi disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae trefniadau pontio cadarn sy'n cynnwys ymweliadau, cystadlaethau chwaraeon a barbeciw rhieni. Mae'r rhain yn gymorth i ddisgyblion Blwyddyn 7 setlo yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad buddiol i ddisgyblion wrth iddynt ddewis eu pynciau TGAU a Safon Uwch neu wrth symud ymlaen i gam nesaf yn eu bywydau. Mae hyn yn cynnwys cyfweiliadau â'r swyddog gyrfaedd, trafodaethau â disgyblion hŷn am eu profiadau, sesiynau blasu pynciau a nosweithiau opsiynau. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 10 a 12 yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd ag wythnos o brofiad gwaith.

Mae'r ysgol wedi dechrau gwneud rhai camau buddiol er mwyn gwella presenoldeb disgyblion. Mae arweinwyr wedi dechrau gwella ymwybyddiaeth disgyblion a theuluoedd o bwysigrwydd presenoldeb trwy gynnal nosweithiau rhieni, llythyru am bwysigrwydd presenoldeb da a thrwy system wobrwyo presenoldeb. Mae tîm o staff, arweinwyr ac asiantaethau allanol yn darparu cefnogaeth briodol i ychydig o ddisgyblion er mwyn eu cefnogi i ailgysylltu â'u dysgu. Mae arweinwyr yn cadw cofnodion o'r camau sy'n cael eu cymryd gyda disgyblion sydd â phresenoldeb isel. Serch hyn, nid ydynt yn dadansoddi data presenoldeb yn ddigon manwl er mwyn adnabod tueddiadau mewn grwpiau gwahanol nac i adnabod y strategaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ar bresenoldeb.

Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant diogelu addas lle mae'r berthynas agos a chyfeillgar rhwng y staff a'r disgyblion yn nodweddiadol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi nad ydynt yn cael eu bwlio ac mae llawer yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r cynllunio strategol ar gyfer hyrwyddo amrywiaeth, hybu goddefgarwch a dathlu gwahaniaeth yn datblygu'n briodol.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn addas. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu diogelwch y safle ac mae trefniadau recriwtio diogel yn gadarn. Rhoddir hyfforddiant cynhwysfawr a chyson i staff ar bob lefel, gan gynnwys y llywodraethwyr, ar faterion diogelu a phrosesau amddiffyn plant. O ganlyniad, mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel ac mae prosesau clir iddynt adrodd ar unrhyw bryder. Mae staff penodol yn cydweithio'n addas â gwasanaethau statudol i gyfeirio unrhyw bryder am niwed arwyddocaol i blant. Trefnir cyfleoedd buddiol a rheolaidd i staff bugeiliol gwrdd â gweithwyr iechyd i drafod disgyblion bregus a chytuno ar gefnogaeth iddynt. Mae staff perthnasol yn cynnal cyfarfodydd cyson i drafod lles disgyblion. Mae trefn addas ar gyfer cofnodi'r trafodaethau hyn ac unrhyw weithredoedd sydd wedi eu cyflawni ond nid yw'r drefn o gofnodi camau gweithredu ar gyfer y dyfodol yn ddigon clir.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a seilir ar gynnig profiadau cyfoethog i holl ddisgyblion Ysgol Syr Hugh Owen. Rhoddir pwyslais cryf ar feithrin ymdeimlad o berthyn ynghyd â balchder yn nhreftadaeth a diwylliant Caernarfon a Chymru. Ymgorfforir hyn yn arwyddair yr ysgol, 'Yma wyf inna' i fod'. Rhennir y weledigaeth hon gan yr uwch dîm rheoli, staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol.

Mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n gydwybodol i wireddu'r weledigaeth hon a chyflawni eu dyletswyddau. Serch hyn, nid oes cydbwysedd yng nghyfrifoldebau'r tîm ac mae meysydd cyfrifoldeb rhai aelodau o'r uwch dîm rheoli yn gorgyffwrdd yn sylweddol. Golyga hyn nad yw bob amser yn glir pwy sydd ag arweiniad strategol dros agweddau pwysig ar waith yr ysgol nac ychwaith pwy sy'n sicrhau atebolrwydd drostynt. Nid oes trosolwg digon cadarn o rai meysydd pwysig sydd angen eu datblygu, megis y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion bregus a'r rhai ag ADY, asesu a phresenoldeb. O ganlyniad, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar yr agweddau hyn dros amser.

Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnig cefnogaeth ddefnyddiol i arweinwyr canol, ar y cyfan. Mae cyfarfodydd rheolaeth llinell yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu meysydd megis Cwricwlwm i Gymru a medrau trawsgwricwlaidd. Yn ogystal, maent yn cynnal cyfarfodydd cyswllt anffurfiol i helpu arweinwyr canol i gyflawni eu dyletswyddau. Fodd bynnag, mae trefniadau'r cyfarfodydd cyswllt yn rhy amrywiol ac, yn aml, yn rhoi sylw i faterion gweithredol neu gyffredinol ar draul trafod dysgu ac addysgu. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn herio arweinwyr yn ddigon cadarn.

Mae gan yr ysgol lawlyfr staff cynhwysfawr sy'n amlinellu trefniadau a gweithdrefnau'r ysgol. Serch hyn, nid yw staff bob amser yn teimlo bod eu llais yn cyfrannu at benderfyniadau'r ysgol.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw teilwng i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Cryfder nodedig o waith yr ysgol yw'r toreth o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau Cymraeg trwy weithgareddau allgyrsiol a diwylliannol. O ganlyniad, mae disgyblion yn hynod falch o'u hardal a'u Cymreictod. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd cadarn i weithredu ei gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr canol yn cyfrannu'n frwd i'r gwaith o ddatblygu, adolygu ac addasu'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 ac 8.

Mae gwaith yr ysgol i wella presenoldeb yn dechrau cael effaith gadarnhaol, ond mae presenoldeb yn parhau i fod yn bryder. Yn ogystal, mae arweinwyr yn gweithredu'n briodol i leihau effaith tlodi ar gynnydd disgyblion ac mae diwylliant diogelu addas. Fodd bynnag, mae'r gwaith i ddatblygu'r ddarpariaeth i ymateb i'r ddeddf anghenion dysgu ychwanegol yn faes i'w wella.

Mae gan yr ysgol galendr addas o weithgareddau sicrhau ansawdd. Cynhelir gweithgareddau craffu ar waith, sesiynau cyrchu barnau disgyblion, holiaduron disgyblion a rhieni a theithiau dysgu gwerthfawr gan aelodau o'r uwch dîm rheoli. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr bob amser yn triongli canfyddiadau hunanwerthuso yn ddigon da ac felly nid ydynt yn adnabod yr union agweddau mae angen mynd i'r afael â nhw. O ganlyniad, nid yw'r gweithredu yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliant.

Mae ychydig enghreifftiau ble defnyddir data yn briodol i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella ym mherfformiad disgyblion. Yn gyffredinol, nid yw defnydd arweinwyr o wybodaeth megis data cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion yn ddigon miniog. Yn aml, nid oes digon o ystyriaeth i berfformiad grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn frwdfrydig am eu rolau. Maent yn defnyddio rhai gweithgareddau sicrhau ansawdd er mwyn adnabod yr agweddau cyffredinol sydd angen eu datblygu o fewn eu hadrannau, ond mae'r defnydd o'r rhain yn rhy anghyson. Yn ogystal, yn aml, mae arsylwadau gwersi a gweithgareddau craffu yn canolbwyntio'n ormodol ar y ddarpariaeth. Nid ydynt yn ystyried effaith yr addysgu a'r ddarpariaeth ar safonau a lles disgyblion yn ddigon manwl, gan gynnwys grwpiau megis disgyblion ag ADY a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol drefn rheoli perfformiad addas ble mae'r arweinwyr ar bob lefel yn chwarae rhan weithredol i osod amcanion ar gyfer staff addysgu ac ategol. Gosodir yr amcanion yn briodol, ar y cyfan, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol, ond nid ydynt bob amser yn ddigon penodol na miniog i gael effaith ar wella safonau cyflawniad a lles disgyblion. Yn gyffredinol, mae uwch arweinwyr yn delio'n addas ag unrhyw achosion o danberfformiad gyda lefel briodol o gefnogaeth a her.

Mae arweinwyr yn cynnig sesiynau dysgu proffesiynol buddiol i helpu athrawon ddatblygu addysgu, er enghraifft sesiynau i hybu strategaethau darllen yn yr ystafell ddosbarth a sut i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol. Mae'r cyfleoedd hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau. Mae rhaglen eang o gyfleoedd i ymateb i anghenion amrywiol staff, sy'n cynnwys hyfforddiant mewnol, cyfleoedd i gydweithio ag ysgolion eraill yn ogystal â gwaith gyda darparwyr allanol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn gweithio'n gydwybodol a brwdfrydig i gyflawni eu rôl. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n ddefnyddiol at weithgareddau sicrhau ansawdd yr ysgol, trwy wrando ar farn disgyblion am eu profiadau yn yr ysgol, er enghraifft. Mae strwythur buddiol o is-baneli sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Trwy'r is-baneli hyn, mae'r llywodraethwyr yn darparu lefel briodol o her ar faterion pwysig fel y gyllideb, newidiadau i'r cwricwlwm a lliniaru effaith tloedi ar brofiadau disgyblion, gan gynnwys cost gwisg ysgol a theithiau. Serch hyn, er bod yr is-baneli yn trafod materion pwysig ar waith yr ysgol megis presenoldeb a chyflawniad disgyblion, nid ydynt bob amser yn derbyn gwybodaeth sy'n ddigon clir a hylaw iddynt allu herio'r agweddau hyn yn llawn. Mae'r llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac wedi ymweld â'r ysgol i weld beth yw'r arlwy yn y ffreutur a sut brofiad a geir gan y disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus trwy waith yr is-banel rheolaethol. Mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei wario'n briodol er mwyn cefnogi disgyblion a gwella ansawdd eu profiadau. Er enghraifft, trwy sicrhau gwisg ysgol, cefnogi teithiau addysgol, sicrhau adnoddau dysgu a chynnal wythnos o weithgareddau i gyfoethogi profiadau disgyblion. Buddsoddir yn bennaf ar staffio, ac mae'r ysgol yn gwerthuso'r gwariant yn addas.

Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni am drefniadau'r ysgol yn briodol trwy gylchlythyrau, nosweithiau gwybodaeth a phlatformau digidol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn casglu barn rhieni drwy ddefnyddio holiaduron. Fodd bynnag, nid yw rhieni bob amser yn teimlo bod yr ysgol yn cyfathrebu'n ddigon effeithiol â nhw.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad



## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (<http://www.estyn.gov.wales/>)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

<http://www.estyn.gov.wales/>

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 26/06/2024